

# Ysgolion Awyr Agored Sir Benfro

## Tasgau Cyfoethog

<b>Ardal:</b> Coedwig	<b>Grŵp Blwyddyn y CC:</b> Meithrin/Dosbarth Derbyn
<b>Maes Dysgu/Pwnc</b> <b>Sgil</b> Defnyddio geometreg – Siâp Meithrin – adnabod a defnyddio enwau siapiau 2D mewn gweithgareddau chwarae ac yn yr amgylchedd. Dosbarth Derbyn – adnabod ac enwi siapiau 2D cyffredin mewn gweithgareddau chwarae ac yn yr amgylchedd.	
<b>Pennawd/Addas i blant</b>  Sawl sgwâr a thriongl gallwch chi eu gwneud?	
<b>Meini prawf llwyddiant</b> <ul style="list-style-type: none"><li>• Gwneud sgwâr a thriongl</li><li>• Adnabod rhai o briodweddau allweddol sgwariau a thrionglau</li><li>• Adnabod y gwahaniaethau rhwng sgwariau a thrionglau</li><li>• Gwneud cymaint o drionglau â phosibl gan ddefnyddio nifer cyfyngedig o frigau</li><li>• Gwneud llun o sgwariau a thrionglau.</li></ul>	
<b>Beth i'w wneud:</b> <u>Profiad blaenorol</u> – cysylltwch â'r dysgu blaenorol ar briodweddau sgwariau a thrionglau. <ul style="list-style-type: none"><li>• Gofynnwch i'r plant gasglu 6 brigyn syth. Rhowch gyfyngiad ar yr hyd</li><li>• Gofynnwch i'r plant ffurfio pâr a rhoi eu brigau gyda brigau rhywun arall</li><li>• Rhowch amser i'r plant greu eu thriongl a'u sgwâr</li><li>• Dylai'r plant ddisgrifio'r camau roedd eu hangen arnynt i greu eu siapiau (h.y. dewis brigau o'r un hyd i greu sgwâr, nifer y brigau yr oedd eu hangen, ac ati)</li><li>• Dylai'r plant edrych ar siapiau plant eraill ac asesu eu cymheiriaid</li><li>• Trafodwch briodweddau sgwariau a sut maen nhw'n wahanol i betryalau a thrionglau (h.y. nifer y corneli gwahanol, mae gan sgwariau ochrau o'r un hyd, nid yw ochrau petryalau o'r un hyd ac nid yw ochrau thrionglau o reidrwydd yr un hyd, ac ati)</li><li>• Gweithiwch fel grŵp cyfan i greu enghraifft o ddefnyddio'r brigau i greu llawer o drionglau (e.e. seren)</li><li>• Rhowch dasg i'r parau i greu cymaint o drionglau â phosibl gan ddefnyddio'u 12 brigyn.</li><li>• Cofnodwch waith y plant gan ddefnyddio TGCh wrth fynd yn eich blaen.</li></ul>	

### Ymestyn

- A allwch chi wneud gwahanol siâp/siapiau 2D gan ddefnyddio'ch brigau?
- A allwch chi ddefnyddio'ch brigau i wneud llun sy'n cynnwys un neu fwy o drionglau neu sgwariau (dangoswch siâp pryfyn wedi'i wneud gyda brigau, neu dŷ, tŵr ac ati, i ysbrydoli'r disgyblion).

### **Adnoddau:**

- Coedwig gyda digon o frigau, neu fwndel o frigau rydych chi wedi'u casglu'n barod
- Ipad/Camera.

